

Teitl: Cynorthwydd Addysgu Lefel 3

Lleoliad: Ysgol Pen-y-Cwm

Cyfarwyddiaeth: Addysg

Cyflog: Lefel 3 - Gradd 5 - SCP 14-20

Oriau: 32.5 awr

Contract: Cyfnod Penodol – 31/08/26 (Yn Ystod y Tymor)

Dyddiad Cychwyn: Medi 2025

Crynodeb o'r Swydd

Yn sgil ehangu a chynnydd yn niferoedd y disgyblion, rydym am benodi Cynorthwywyr Addysgu Lefel 3 arloesol yn barod i ddatblygu eu sgiliau arwain tra'n cefnogi addysgu a dysgu o fewn y dosbarth.

Hysbyseb

Rydym yn awyddus i gyflogi Cynorthwywyr Dysgu Lefel 3 i gefnogi dysgu trwy weithio'n agos gyda'r athro dosbarth i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol.

Efallai y bydd gofyn i chi gefnogi'r dosbarth yn absenoldeb tymor byr athro dosbarth, gan sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar ddysgu.

Bydd angen i chi fod yn hyblyg wrth ddarparu cymorth wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio i ddiwallu anghenion ein dysgwyr.

Byddai'r swydd yn addas ar gyfer rhywun gyda hyblygrwydd, brwdfrydedd a sensitifrwydd yn ogystal â dealltwriaeth ragorol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad o dechnegau rheoli dosbarth effeithiol. Byddwch yn cael eich cefnogi gan dîm arwain canol ac uwch tosturiol er mwyn datblygu eich sgiliau arwain eich hun wrth i chi weithredu fel mentor i Gynorthwywyr Addysgu sy'n newydd i'r ysgol.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn barod i ddangos ei fod yn chwaraewr tîm ochr yn ochr â'n tîm sefydledig o Gynorthwywyr Addysgu, gan gynnal ein gwerthoedd craidd trwy wneud y canlynol:

- Galluogi dysgwyr i fod yn llwyddiannus trwy ddatblygu a chefnogi agweddau rhagorol at ddysgu.
- Meithrin perthnasoedd cryf gyda dysgwyr, gan alluogi dysgu i barhau yn absenoldeb eu hathro dosbarth.

Bydd angen i chi ddangos sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol. Rhaid i chi fod yn ddyfeisgar, yn gadarnhaol, yn wydn yn emosiynol a bod ag agwedd gyfannol at gefnogi anghenion plant a phobl ifanc. Mae'r gallu i gyfrannu at ethos cynnes, gofalgwr ein hysgol yn hanfodol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: Dydd Llun, 12fed o Fai 2025 – 12:00pm, canol dydd

Dyddiad Llunio Rhestr Fer: Dydd Gwener, 23ain o Fai 2025

Dyddiad Cyfweld: Dydd Iau, 5ed o Fehefin 2025

Mae'r swydd hon yn gofyn am gofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o dan y categori Gweithiwr Cymorth Dysgu Ysgol a bydd angen i gofrestrriad fod yn ei le cyn dechrau yn y rôl. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar gael ar y wefan ganlynol <http://www.ewc.wales/> neu drwy ffonio 02920 460099.